# Diweddariad Llechi Cymru

## Mawrth 2026

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

# Cynnwys


1. Prosiect Llewyrch o'r Llechi .......................... 1.

2. Safle Treftadaeth y Byd .................................. 5.

3. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol ......... 7.

4. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach ................................. 8.




Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

# 1. Prosiect Llewyrch o'r Llechi

Rhaglen adfywio ddiwylliannol yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a ariennir gan Lywodraeth y DU. Am wybodaeth gefndir am y rhaglen, gan gynnwys y prosiectau a amlinellir isod, gweler ein hadroddiad blynyddol diweddaraf: **cliciwch yma**.

## Hwb Dinorwig

Mae'r ailddatblygiad Yr **Amgueddfa Lechi** ar waith gyda'r hen siop a chaffi wedi eu dymchwel a gwaith strwythurol a chadwraeth yn mynd rhagddi ar y safle. Mae cyfleoedd i fynychu teithiau het galed o'r safle yn cael eu hyrwyddo ar wefan yr amgueddfa, ewch draw i weld y datblygiadau! Mae datblygiadau ar waith rhwng yr Amgueddfa a Llechi Cymru i ddatblygu Gilfach Ddu yn borth ar gyfer gweddill y Safle Treftadaeth y Byd, yn annog pobl i deithio allan i'r cymunedau a thirwedd llechi er mwyn dysgu mwy am ein hanes cyfoethog. Mae'r Amgueddfa wedi bod yn gweithio'n agos iawn efo tîm LleCHI LleNI ar eu gweithgareddau a chafodd rheolwr y prosiect gyfle i gynnal sesiwn efo staff yr Amgueddfa ym mis Ionawr er mwyn rhannu gwybodaeth a chyfleoedd.

Mae gwelliannau **Parc Padarn** yn parhau, gyda gwedd gyntaf gwelliannau i'r maes parcio wedi eu cwblhau, yn ogystal ag agor y bloc croeso newydd a chwblhau'r gwaith cadwraeth ar Inclein A1 a'r cwt weindio.  Mae contractwyr wedi eu hapwyntio i ymgymryd â gwaith cadwraeth i adeilad Hafod Owen, ac fe fydd y gwaith i uwchraddio sied Fire Queen yn cychwyn yn fuan.




**Bloc croeso, Parc Padarn**

# Hwb Ogwen

Mae **Neuadd Ogwen** yn mynd o nerth i nerth ers derbyn buddsoddiad Llewyrch o'r Llechi, gyda digwyddiadau amrywiol a niferus yn cael eu cynnal yno na fyddai'n bosib heb y gwaith uwchraddio i ffabrig yr adeilad. Un uchafbwynt o'r misoedd diwethaf oedd medru cynnal digwyddiad 'Un Pnawn Tywyll' fel rhan o raglen gweithgareddau llesiant LleCHI LleNI. Roedd y 'day rave' yn gyfle i ail-greu naws a theimlad y 90au - mewn amgylchedd llawer mwy diogel(!) - gyda delweddau o'r dirwedd llechi yn cael eu taflunio ar waliau'r neuadd. Daeth dros 300 i'r digwyddiad ac roedd yn gyfle i ymgysylltu â chynulleidfa newydd.

Mae gwaith yn parhau ar safle **Yr Hen Bost**, gyda ffrâm yr estyniad yn ei le a gwaith adeiladu yn symud yn ei flaen.

Mae gwelliannau i **Lôn Las Ogwen** hefyd yn parhau, gyda'r twnnel gwartheg wedi ei gwblhau a'r giatiau wedi eu tynnu oddi ar y llwybr er mwyn hwyluso symudedd pobl, mae Pont Sarnau newydd bellach wedi ei osod, ac fe fydd yn agored i'r cyhoedd unwaith mae'r gwelliannau i'r llwybrau gerllaw wedi eu cwblhau.



**Un Pnawn Tywyll, Neuadd Ogwen**



**Pont Sarnau, Dyffryn Ogwen**

# Hwb Ffestiniog

Mae'r gwaith uwchraddio wedi ei gwblhau ar **Yr Aelwyd**, a'r adeilad wedi ailagor ac yn ganolfan gymunedol fywiog sydd yn croesawu nifer fawr o ddefnyddwyr trwy'r drysau yn wythnosol, yn cynnwys Clwb Ieuenctid newydd gyda 120 o blant a phobl ifanc.  Cynhaliwyd agoriad swyddogol o'r adeilad yng nghwmni gwahoddedigion ac aelodau'r gymuned i ddathlu'r llwyddiant.

Mae gwaith wedi cychwyn ar uwchraddio dau adeilad segur ar y **Stryd Fawr**, fe fydd Siop Ephraim a Chaffi Bolton yn cynnig gofod busnes, gofod creadigol a gofod preswyl tra yn cadw cymeriad hanesyddol holl-bwysig yr adeiladau eiconig yma.

Mae **Llwybr Llechwedd** eisoes wedi ei gwblhau, ac yn ddiweddar fe gipiodd Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) Wobr Teithio Llesol CIHT Cymru Wales 2025 ar gyfer y cynllun.



Yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog

# Gwelliannau Canol Trefi

Mae'r **stribedi llechi** yn Nhywyn a Mhorthmadog wedi'u gosod, mae rhai Tywyn yn cynnwys geiriau gwreiddiol gan y bardd lleol Manon Steffan Ros, a rhai Porthmadog yn cynnwys detholiad o waith bardd Eifion Wyn, wedi eu dethol gan ddisgyblion Ysgol Eifion Wyn.

Mae'r **cynllun arwyddo cerddwyr** bron a'i gwblhau yn Nhywyn, Penygroes, Llanberis a Bethesda, ac ar waith ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae'r **gampfa awyr agored** wedi'i gwblhau yn Llanberis a bellach ar agor i'r cyhoedd.

Mae Howard Bowcott ar waith yn creu **cerflun** trawiadol fydd yn dathlu hanes a threftadaeth llechi Llanberis, fydd hwn yn cael ei leoli ger y llyn, a gobeithir ei osod erbyn gwyliau'r haf. Cynhaliwyd sesiwn galw i mewn difyr yng nghwmni'r artist a'r Amgueddfa Lechi yn y Ganolfan Gymunedol yn ystod Mis Chwefror, ble roedd cyfle i fynychwyr rannu atgofion a chyfrannu geiriau i'w cynnwys yn y cerflun, mae sesiwn ymgysylltu hefyd wedi ei gynllunio gydag Ysgol Dolbadarn yn fuan.

Mae pecynnau sain sydd gyda naratif hanes lleol wedi eu gosod ar **feinciau clyfar** ym Mhorthmadog, ac i ddod yn Nhywyn cyn bo hir.

Mae QR codes wedi'u gosod ar **gerfluniau** Hward Bowcott ym Mhorthmadog sydd yn cyfeirio pobl at y dudalen dehongli celf ar wefan Llechi Cymru, y bwriad yw dehongli holl waith celf Llechi Cymru er mwyn creu cylchdaith celf ddigidol trwy'r dirwedd llechi.

Mi fydd **biniau** newydd yn cael eu gosod yn y gwanwyn yng nghanol trefi Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

Mae gwelliannau i **Bont Cae'r Ddol** yn Llanberis bellach wedi'u cwblhau.



Sesiwn gymunedol, Llanberis




## Cynllun Cadwraeth

Mae'r gwaith cadwraeth yn dirwyn i ben ar safle Yr **Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn**, ym Methesda, er bod rhywfaint o oedi wedi bod oherwydd y tywydd gwael ar gychwyn y flwyddyn! Mae gwaith rhagorol wedi ei gyflawni er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a hygyrchedd y safle am flynyddoedd i ddod, wrth gyfuno technegau modern a sgiliau traddodiadol i warchod y strwythur pwysig yma.  Mae ymweliadau safle wedi eu cynnal er mwyn rhannu cynnydd y prosiect hefo'r gymuned a rhanddeiliaid.

## Cyfarfodydd: Llewyrch o'r Llechi

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ym Methesda, Llanberis a Blaenau Ffestiniog, sy'n cynnwys aelodau lleol, cynghorau tref a chynghorau cymuned ac aelodau o fentrau cymdeithasol lleol i ddiweddaru pawb ar y cynnydd y prosiect Llewyrch o'r Llechi ac i wneud yn siŵr ein bod ni yn blaenoriaethu'r pethau pwysig yn y cymunedau gwahanol.

Mae cyfarfodydd efo holl bartneriaid Llewyrch o'r Llechi yn cael ei gynnal pob chwe mis i ddathlu llwyddiannau, rhannu ymarfer da a rhannu diweddariadau cynnydd. Cafodd y diwethaf ei gynnal ym Mlaenau Ffestiniog, gyda chyfle i'r holl bartneriaid gael gweld Yr Aelwyd ar ei newydd wedd.

# 2. Safle Treftadaeth y Byd

Roedd ein **Digwyddiad Blynyddol Llechi Cymru** (Neuadd Ogwen, Bethesda), yn gyfle i ddathlu llwyddiannau yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, ac roedd y digwyddiad yn llawn.

Un digwyddiad arbennig iawn oedd cynnal **darlith deimladwy a phwerus Dafydd Wigley** am frwydr iawndal llwch y chwarelwyr (Yr Aelwyd, Blaenau Ffestiniog).

Cyfrannodd Cyngor Gwynedd, UNESCO DU, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Mwyngloddio Cernyw a Gorllewin Dyfnaint a Chroeso Cymru at ein **gweithdy thematig** diweddaraf, gan drafod marchnata a marchnadoedd yn y Safle Treftadaeth y Byd.

Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf o'n **his-grŵp 'Elwa o'r STyB'** yn Boston Lodge, dan nawdd Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri (cyfarfod wyneb yn wyneb). Yn ystod taith tywys ar ôl y cyfarfod, dysgodd mynychwyr am y prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddiweddar, sydd wedi adfywio a diogelu'r adeiladau ar y safle.



**Darlith, Dafydd Wigley**



**Grŵp Buddion STyB, Boston Lodge**

Ymwelodd staff yr Amgueddfa Lechi ein prosiect cadwraeth yn Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn ar **daith dywys**. Mae'r prosiect yn rhan o'r rhaglen adfywio ehangach Llewyrch o'r Llechi, a ariennir gan Lywodraeth y DU, sy'n cyfrannu hefyd at ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi.

Llongyfarchiadau i **Reilffordd Talyllyn** ar eu llwyddiant wrth ddenu buddsoddiad sylweddol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer eu prosiect uchelgeisiol i wella cyfleusterau.

Cyfrannodd Llechi Cymru at **Ŵyl Hanes Bangor** gyda phanel trafod (Hanes Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - wedi'i gadeirio gan Yr Arglwydd Dafydd Wigley, gyda sgyrsiau gwych gan Elin Tomos, Dr Dafydd Roberts a Dr Dafydd Gwyn). Yn ystod y prynhawn trefnodd prosiect LleCHI LleNI weithgareddau ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

Cyfrannodd Llechi Cymru at y **digwyddiad Llysgennadon** Gwynedd, Eryri a Chonwy a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Boston Lodge.

Ymwelodd amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid â chyfarfod diweddaraf ein **his-grŵp Addysg a Dysgu Safle Treftadaeth y Byd**, ym Mlas Tan y Bwlch. Mae'r sesiynau hyn yn ffordd werthfawr o asesu darpariaeth addysgol gysylltiedig â'r dirwedd llechi ar draws y STyB.

Ym mis Ionawr mynychon ni **gynhadledd** yn Nulyn ar gyfer Safleoedd Treftadaeth Byd posibl yn Iwerddon, a drefnwyd gan Wasanaeth Henebion Cenedlaethol a Llywodraeth Iwerddon. Roedd ein cyflwyniad yn manylu ar ein profiadau yng Ngwynedd wrth ddatblygu a rheoli Safle Treftadaeth Byd. Fe wnaethom hefyd gymryd rhan mewn gweithdai gyda chyfranogwyr.

Bob blwyddyn, mae staff Llechi Cymru a Cadw yn cyfrannu at **gwrs MA Treftadaeth Fyd-eang** Prifysgol Bangor, gan drafod sut mae Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei reoli.



**Cynhadledd, Dulyn. © Archif Ffotograffig, Gwasanaeth Henebion Cenedlaethol, Llywodraeth Iwerddon**



**Darlith, Prifysgol Bangor**

Yn Ionawr cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r grŵp anffurfiol **'Caban Dehongli'**. Mae hyn yn gyfle misol i ddod ynghyd am awr i drafod materion dehongli. Mae partneriaid gwahanol yn arwain y drafodaeth gan ganolbwyntio ar bwnc gwahanol bob fis. Nod y sesiynau hyn yw rhannu gwybodaeth ac adnoddau, cynnig cyngor ac arfer da ac i gydweithio.

Cynhaliwyd **Cynhadledd Diwylliant Gwynedd 2026** ym Mhortmeirion yn ddiweddar - cyfle gwych i rwydweithio a chlywed am flaenoriaethau'r sector ar gyfer y cyfnod nesaf. Roedd hefyd yn wych gweld prosiectau Llechi Cymru yn cael eu cynnwys ymhlith y diweddariadau.

I nodi **Diwrnod Addysg Ryngwladol UNESCO**, gwnaethom ystyried ein darpariaeth addysgol bresennol. Mae Llechi Cymru wedi datblygu adnoddau addysgol gyda phlant a phobl ifanc o gymunedau llechi. Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda dros 1,000 o ddisgyblion ysgol yn ystod gweithdai ar draws Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Rydym hefyd yn cyfrannu at MA Treftadaeth Fyd-eang Prifysgol Bangor, yn darparu sesiynau ar gyfer prifysgolion eraill ac yn cefnogi prosiectau ymchwil ôl-radd.

Gweler cofnodion ein cyfarfod diweddaraf Bwrdd Partneriaeth Llechi Cymru **yma**.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

# 3. LleCHI LleNI: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol

Llongyfarchiadau i'r **prentisiaid ifanc** o ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle bu'n lansio arddangosfa o'u gwaith celf yn Yr Orsaf yn Rhagfyr 2025. Mae'r arddangosfa yn ffrwyth gwaith prosiect efo'r artist a ffotograffydd Carwyn Rhys Jones i gasglu hanes llafar a thynnu lluniau o gyn-chwarelwyr. Mae ffilm hyfryd o'r prosiect ar ein sianel YouTube yn **fan hyn**.

Diolch i'r teuluoedd ddaeth yn llu i'n **sesiynau STEAM** ar y cyd efo Sbarduno a Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod hanner tymor Chwefror yng Nghaernarfon, Porthmadog a Thywyn. Cafodd y plant gyfle i greu lamp lafa wrth ddysgu am ddaeareg tirwedd Llechi Cymru.

Bu'r Swyddog Dysgu a Datblygu LleCHI LleNI yn arwain 12 o weithdai i ysgolion rhwng Ionawr a Mawrth mewn cydweithrediad â Chwmni Fran Wen, Amgueddfa Lechi Cymru, Gwasanaeth Archifau Gwynedd ac MSparc. Diolch i ysgolion Cefn Coch, Borth y Gest a Glancegin am eich croeso. Mae esiampl o'r gweithgareddau yng Nghefn Coch i'w weld ar ein sianel YouTube yn **fan hyn**.

Cynhaliwyd sesiynau bywiog gyda'r **rapiwr a bit-bocsiwr Mr Phormula**, yn unedau iaith ysgolion uwchradd Tywyn, Eifionydd a Thryfan ym mis Mawrth. Roedd yn gyfle i ddysgu am hanes a geirfa'r chwarelwyr tra'n gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r cynllun **Llysgenhadon Llechi Ifanc** wedi cychwyn ar y cyd efo Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd. Bydd bobl ifanc 13-16 oed yn cael cyfle i ddod ynghyd yn fisol i grwydro'r dirwedd llechi, dysgu am y dreftadaeth a datblygu amryw o sgiliau. Ym mis Chwefror roedd y criw wedi treulio dydd Sadwrn syfrdanol o heulog yng Nghwmorthin gyda Heneb yn dysgu am hanes yr ardal.



**Llysgenhadon Llechi Ifanc**



**Prentisiaid Ifanc**

# 4. Digwyddiadau i Ddod a Gwybodaeth Bellach

Gwiriwch ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac **Eventbrite** am ddiweddariadau.

| | |
|---|---|
| **27/03/2026** | Taith Gerdded a Thrên efo Dafydd Gwyn (taith gerdded), Abergynolwyn |
| **06/04/2026** | Caban Clud a Charped Hud (sesiwn i deuluoedd), Llyfrgell Tywyn |
| **11/04/2025** | O'r Llechi i'r Lli 1 (taith gerdded hanes a natur), Dinorwig i Brynrefail |
| **18/04/2025** | Taith gerdded er cof am Gareth Roberts (hanes), Rhiwlas |
| **09/05/2026** | O'r Llechi i'r Lli 2 (taith gerdded hanes a natur), Brynrefail i Lanrug |
| **23/05/2026** | Gweithdy Ffotograffiaeth efo Carwyn Rhys Jones, Abergynolwyn |
| **30/05/2026** | Dro Meddylgarwch efo Leisa Mererid, Bethesda |
| **11/06/2026** | Darlith hanes Eglwys Glanogwen a'r diwydiant llechi, Bethesda |
| **13/06/2026** | O'r Llechi I'r Lli 3 (taith gerdded hanes a natur), Llanddeiniolen i'r Felinheli |
| **20/06/2026** | Troedio Llechi'r Enfys (taith gerdded Mis Balchder), Coed Dinorwig, Llanberis |
| **04/07/2026** | Darlith efo Dr Dafydd Gwyn, Tyddyn Mawr, Cwmystradllyn |
| **09/08/2026** | Ein treftadaeth, gemau a chreu (sesiwn i ddysgwyr Cymraeg) Llyfrgell Tywyn |
| **24/08/2026** | Troedio Tir y Doctor Dail (Thomas Parry).<br>Taith gerdded hanes a natur i oedolion a phlant 10+), Tregarth |
| **26/08/2026** | Gweithdy'r Doctor Dail (Thomas Parry).<br>Gweithgaredd llesiant i oedolion a phlant 10+), Tregarth |

Ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch ni ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (cliciwch yr eiconau isod). E-bost: **llechi@gwynedd.llyw.cymru**. Gwefan: **www.llechi.cymru**.